# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu'r cam ac wrth weithredu i'w gyflawni. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i wreiddio'r pum ffordd o weithio ymhellach yn ei brosesau penderfynu a chynllunio ar gyfer ei ddyheadau digidol.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Pam y cynhalion ni'r Archwiliad 4

Yr hyn y gwnaethom ei archwilio 4

Adroddiad manwl

Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad 6

Mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu'r cam ac wrth weithredu i'w gyflawni. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i wreiddio'r pum ffordd o weithio ymhellach yn ei brosesau penderfynu a chynllunio ar gyfer ei ddyheadau digidol 6

Mae'r Cyngor yn cymryd camau i ddiogelu ei rwydwaith a systemau TG at y dyfodol ond mae angen iddo ddatblygu uchelgais hirdymor gyda mesurau deilliant mwy eglur ar gyfer ei strategaeth ddigidol 6

Er bod effeithiau ataliol ymhlyg trwy gyflawni'r cam hwn, gallai'r Cyngor fod yn fwy diamwys ynglŷn â'i agenda atal 7

Mae'r Cyngor yn glir ynglŷn â sut y mae'r cam hwn yn ategu ei amcanion llesiant eraill. Fodd bynnag, mae cyfle i ystyried yn fwy gweithredol beth yw'r effaith bosibl ar amcanion partneriaid 8

Mae'r Cyngor yn cydweithio gydag ystod o bartneriaid i gyflawni'r cam hwn; fodd bynnag, dylai barhau i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer cydweithio digidol ac i gasglu gwybodaeth am arfer gorau 9

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ei ddull cydgynhyrchu'n dal i ddatblygu. Fodd bynnag, dylai sicrhau nad yw ei ddull cyflym o ddigideiddio'n digwydd ar draul cydgynhyrchu go iawn 10

Rhan Dau: Ymateb y Cyngor 12

Atodiadau

Atodiad 1: dangosyddion cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio 15

asesiad yn erbyn egwyddor cynaliadwyedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol'; ac

- mae'r Cyngor yn cymryd camau i ddiogelu ei seilwaith TG at y dyfodol gan ddefnyddio platfform seiliedig ar gwmwl, datblygu ystwyth, a phrydlesu yn hytrach na phrynu systemau a meddalwedd.

14 Canfuom y cyfleoedd canlynol:

- wrth i'r Cyngor ddiweddaru ei Strategaeth TGCh a Digidol 2017-2020 dylai sicrhau bod hon yn disgrifio'n glir beth yw ei uchelgeisiau digidol a'u heffeithiau dros y tymor hwy;
- dylai'r Cyngor adolygu ei gyfres presennol o bum dangosydd canlyniad ar gyfer ei Amcan Llesiant Sefydliadol ac asesu a yw'r rhain yn ddigon i ganfod pa gynnydd sy'n cael ei wneud a'i sicrhau ei hun ei fod yn cyrraedd y cerrig milltir ac yn cyflawni'r deilliannau y mae'n eu disgwyl; a
- datblygu cynllun cyflawni hirdymor sengl ar gyfer gwasanaethau digidol a TGCh.

## Er bod effeithiau ataliol ymhlyg trwy gyflawni'r cam hwn, gallai'r Cyngor fod yn fwy diamwys ynglŷn â'i agenda atal

### Yr hyn y chwilion ni amdano

15 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am natur y broblem a'r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu fynd yn waeth;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau y bydd manteision ataliol yn cael eu cyflawni; a
- gwaith i fonitro ac adolygu pa mor effeithiol yw'r cam o ran atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.

16 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'atal' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[3]

### Yr hyn a ganfuom

17 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor yn archwilio potensial cymwysiadau arloesol megis Alexa ac Amazon Home Care i gefnogi ei agenda ataliol.
- mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu gwaith i ddatblygu cyfleuster cefn-gadw newydd a chysylltedd gwell i sicrhau nad yw ei newid i ddigidol yn cael ei beryglu gan gydnerthedd gwael TGCh.

[3] Gweler Atodiad 1

- Mae Rhwydwaith Ffeibr Llawn Lleol (LFFN) wedi'i fwriadu i atal allgau digidol ac mae'n cefnogi'r gallu i gyflwyno platfformau newydd. Mae LFFN yn darparu'r cyfle i'r sector preifat adeiladu rhwydweithiau optegol goddefol (PON) o amgylch y cysylltiad ffeibr â'r adeilad cyhoeddus.

18 Canfuom y cyfleoedd canlynol:

- mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn disgrifio ei amcanion atal yn fwy eglur yng nghyd-destun ei uchelgeisiau digidol;
- byddai defnydd gwell o ddata hirdymor cadarn yn ei gwneud yn bosibl cael dealltwriaeth fwy llawn am achosion sylfaenol a mynd ati mewn modd mwy soffistigedig i ddatblygu gwasanaethau sy'n cefnogi'r agenda atal; a
- datblygu dealltwriaeth well am unrhyw ganfyddiadau anfwriadol newid gwasanaethau penodol i rai â mynediad digidol yn unig (megis mwy o arwahanrwydd ac unigrwydd).

## Mae'r Cyngor yn glir ynglŷn â sut y mae'r cam hwn yn ategu ei amcanion llesiant eraill. Fodd bynnag, mae cyfle i ystyried yn fwy gweithredol beth yw'r effaith bosibl ar amcanion partneriaid

### Yr hyn y chwilion ni amdano

19 Fe chwilion ni am dystiolaeth o ystyried:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

20 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'integreiddio' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[4]

### Yr hyn a ganfuom

21 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi cymryd y cyfle i ailddiffinio'i flaenoriaethau ac wedi adnabod chwe blaenoriaeth newydd yn ystod y flwyddyn sydd o gymorth i gyflawni ei 14 amcan llesiant.
- mae'r holl amcanion llesiant gwreiddiol gan gynnwys yr amcan llesiant y mae'r cam Wrecsam ddigidol yn perthyn iddo wedi cael eu gwerthuso i ganfod sut y maent yn cyfrannu at gyrraedd y saith nod llesiant cenedlaethol, er mai cyfyngedig oedd y gwerthusiad hwn.

[4] Gweler Atodiad 1

- mae'r Cyngor wedi cymryd y cyfle i ailddylunio gwasanaethau i wella mynediad ar gyfer cwsmeriaid. Fodd bynnag, bydd angen i gydnerthedd y seilwaith TGCh i gefnogi hyn gael ei reoli'n fanwl i sicrhau bod disgwyliadau cwsmeriaid yn dal i gael eu bodloni.
- mae nifer o enghreifftiau penodol lle mae dull y Cyngor o ddarparu gwasanaethau digidol wedi gwella profiad cleifion – megis gyda darlledu cyfarfodydd y Cyngor ar y we a'r gwasanaeth hysbysu ynghylch casgliadau gwastraff.

30 Canfuom y cyfleoedd canlynol:

- dylai'r Cyngor sicrhau nad yw datblygiad cyflym ei wasanaethau Digidol yn dod ar draul cynnwys defnyddwyr ei wasanaethau a chydgynhyrchu gyda hwy mewn modd effeithiol;
- bydd yn bwysig bod y cynllun cyflawni TGCh/digidol sydd wrthi'n esblygu'n disgrifio'n glir sut y bydd cymunedau'n cael eu galluogi a'u hwyluso i gefnogi a chyflawni'r dyheadau digidol; a
- dylai'r Cyngor barhau i archwilio ei uchelgeisiau mewn perthynas â chydgynhyrchu a sicrhau bod y dull hwn yn cael ei ddefnyddio'n gyson ar draws y Cyngor.

| Cyfleoedd - integreiddio | Camau gweithredu'r Cyngor |
|---|---|
| Ymhlith yr enghreifftiau posibl o gyfleoedd ar gyfer mwy o integreiddio mae:<br>• mae'r BGC wrthi ar hyn o bryd yn adnabod blaenoriaeth bellach sy'n ymwneud â chydnerthedd cymunedol. Bydd yn bwysig bod y Cyngor yn cymryd y cyfle i sicrhau bod ei agenda ddigidol yn cael ei hintegreiddio'n llawn fel rhan o'i waith.<br>• gallai'r Cyngor wneud mwy i sicrhau ei fod yn manteisio'n llawn ar y cyfle i integreiddio Rhaglen Trawsnewid Digidol newydd Llywodraeth Cymru i Ysgolion, Hwb, â'i uchelgais Digidol ehangach.<br>• dylai'r Cyngor barhau i gynnwys aelodau'r Cyngor i ddatblygu consensws, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, ynglŷn â manteision ac anfanteision newid i fynediad digidol at wasanaethau. | Bydd y rhain yn cael eu hystyried pan fydd y strategaethau'n cael eu diweddaru. |
| **Cyfleoedd - cydweithio** | **Camau gweithredu'r Cyngor** |
| Dylai'r Cyngor sicrhau nad yw datblygiad cyflym ei wasanaethau digidol, gan gynnwys ei wefan newydd, yn digwydd ar draul cydweithio effeithiol gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys y trydydd sector.<br>Dylai'r Cyngor sicrhau bod ei wasanaethau'n gallu gwneud defnydd llawn o unrhyw fynediad wedi'i ddigideiddio a ddatblygir ar gyfer cwsmeriaid: er enghraifft, lluniau o dyllau mewn ffyrdd a rheoli digwyddiadau yn y Gwasanaethau Stryd. | Wrth i'r Cyngor ddod yn fwy hyderus ynglŷn â chyflawni ei agenda bydd yn sicrhau ei fod yn ymgysylltu â rhanddeiliaid gan gynnwys y trydydd sector fel y bo'n briodol. |
| Dylai'r Cyngor barhau i archwilio ei uchelgeisiau mewn perthynas â chydgynhyrchu a sicrhau bod y dull hwn yn cael ei ddefnyddio'n gyson ar draws y Cyngor. | Fel y pwynt olaf uchod. |

| Cyfleoedd – cynnwys | Camau gweithredu'r Cyngor |
|---|---|
| Dylai'r Cyngor sicrhau nad yw datblygiad cyflym ei wasanaethau Digidol yn dod ar draul cynnwys defnyddwyr ei wasanaethau a chydgynhyrchu gyda hwy mewn modd effeithiol. | Bydd y Cyngor yn parhau i archwilio cydgynhyrchu. Mae hyn yn gyfredol yn yr adolygiad o wasanaethau llyfrgelloedd a bydd agweddau digidol yn rhan o'r gwaith hwn. |
| **Cyfleoedd – cynnwys** | **Camau gweithredu'r Cyngor** |
| bydd yn bwysig bod y cynllun cyflawni TGCh/digidol sydd wrthi'n esblygu'n disgrifio'n glir sut y bydd cymunedau'n cael eu galluogi a'u hwyluso i gefnogi a chyflawni'r dyheadau digidol. | Bydd y Cyngor yn ystyried hyn fel rhan o'i waith i ddiweddaru ei strategaeth. |
| Dylai'r Cyngor barhau i archwilio ei uchelgeisiau mewn perthynas â chydgynhyrchu a sicrhau bod y dull hwn yn cael ei ddefnyddio'n gyson ar draws y Cyngor. | Fel uchod gyda chydweithio. |

32 Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran rhoi'r camau gweithredu hyn ar waith, ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella yr ydym wedi'u hadnabod yn ein canfyddiadau.

